Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

3.Gweithio gydag eraill

3.2 Cymryd rhan cymunedol a dulliau ymrwymiad

Mae cymryd rhan yn gweithio!

Cynaladwyedd yw un o eiriau allweddol yr unfed ganrif ar hugain. Dengys profiad fod datblygiad bychan yn gynaliadwy yn yr hir dymor os nad yw'r gymuned leol yn cymryd rhan ac yn cyfrannu. Mae'r datblygiadau mwyaf cyffrous yng Nghymru yn digwydd ar y rhyngwyneb rhwng cynaladwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Cyfranogi cymunedol yw meini gosod yr adfywiad yma yn ysbryd gweithredol y gymuned.

Beth sydd mor arbennig am gymryd rhan?

Mae ymgynghori yn gysyniad adnabyddus i 'r mwyafrif o awdurdodau lleol, grwpiau gwirfoddol a chymunedol ac asiantaethau datblygu. Mae'n golygu gwahodd sylwadau ar gynlluniau sydd eisoes yn cael eu ffurfio. Mae cymryd rhan yn golygu rhywbeth mwy sylfaenol: annog pobl i gymryd rhan weithredol yn y cynllunio. Mae'r rhan fwyaf o ddulliau ymgynghori yn adnabyddus - cyfarfodydd cyhoeddus, hysbysebion, cylchlythyrau ac ati. Ar y llaw arall, mae ymrwymiad a chymryd rhan gymunedol yn faes newydd i lawer, a gellir ei ddominyddu gan derminoleg anghyfarwydd ac ymgynghorwyr allanol. Mae'r canlynol yn crynhoi rhai o'r dulliau mwyaf poblogaidd a newydd.

Crynodeb o'r dulliau

Arolygon holiadur

Mae arolwg yn dechneg eang sy'n cynnwys casglu gwybodaeth, gan amlaf oddi wrth nifer fawr o bobl, mewn ffurf holiadur strwythuredig safonol. Dyma ddechreubwynt y prosesau cyfranogi, ac fe'u defnyddir yn aml mewn cyswllt â dulliau eraill. Mae dewis y cwestiynau cywir yn hanfodol ar gyfer defnyddioldeb y dull yma.

Gwerthusiadau cymunedol

Mae'r rhain yn dechneg sy'n galluogi pobl leol i ymgymryd ag arolwg manwl o fywyd cymunedol. Canolbwynt y gwerthusiad fel arfer yw holiadur hunan-lenwi a ddosbarthir i bob tŷ yn y gymuned, neu sampl o'r boblogaeth. Fodd bynnag, nid arolwg holiadur yn unig yw gwerthusiad, ond dylid ei ystyried fel proses ehangach sy'n cynnwys dulliau eraill, megis fforymau a gweithdai.

Trafodaethau grwpiau bach

Mae'r rhain yn ymwneud ag ystod o ddulliau tebyg, pob un yn seiliedig ar bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau bychain. Mae'r math yma o ddull yn pwysleisio rhyngweithiad rhwng pobl a chyfnewid gwybodaeth a barnau. Mae gweithdai a grwpiau ffocws yn enghreifftiau cyfarwydd.

Gweledigaeth y gymuned

Mae hwn yn broses sy'n seiliedig ar ddatblygiad 'gweledigaeth' y dyfodol ar gyfer cymuned. Mabwysiadwyd y dull yma gan nifer o awdurdodau lleol yn y DU fel rhan o Agenda Lleol 21. Mae gweledigaethu yn ceisio cynnwys pob elfen o gymuned, yn rhoi ffocws ar dir cyffredin ac yn canolbwyntio ar y dyfodol. Gellir defnyddio amrywiaeth o dechnegau o fewn y broses, gan gynnwys 'Future Search', grwpiau ffocws a gweithdai.

'Future Search'

Mae'r dechneg yma yn ffurfio elfen allweddol y dull gweledigaethu yn y gymuned a ddisgrifiwyd uchod. Mae'n seiliedig ar ddigwyddiad grŵp mawr, cynhadledd gan amlaf, gyda'r bwriad o greu gweledigaeth i gymuned gyda golau cyffredin, a datblygu gweithrediadau i gyflawni'r golau yma. Mae'r dechneg yn ceisio cynnwys pob diddordeb yn y gymuned mewn ffordd sy'n trin pob cyfranogwr yn gyfartal a ble rheolir y digwyddiad gan bawb.

Technoleg Man Agored

Mae hwn yn addasiad o'r dull cyfarfod cyhoeddus 'traddodiadol' i gyfranogi cymunedol, sy'n rhannu peth tebygrwydd gyda digwyddiadau 'Future Search'. Mae'r cyfarfodydd yma yn ceisio cynnwys yr holl bobl sydd â diddordeb i drefnu neu reoli'r digwyddiad a'r materion a ystyrir. Mae'r broses yn hyblyg ac yn 'agored', heb agenda penodedig, ychydig o strwythur ffurfiol yn unig a dim 'arbenigwyr', a gwneir llawer o'r gwaith mewn grwpiau bychain. Mae'n boblogaidd yn y sector preifat a hefyd yn ddull mwy sefydlog yn y sector gwirfoddol.

Penwythnosau cynllunio cymunedol

Mae'r rhain yn ddigwyddiadau mawr sy'n cyfeirio at faterion cynllunio yn y gymuned. Fel arfer, fe'u trefnir gan bobl broffesiynol ac awdurdodau statudol i geisio cynnwys pobl leol i ffurfio awgrymiadau ar gyfer datblygiad eu cymuned.

Fforymau

Mae'r rhain yn gyfarfodydd rheolaidd neu barhaol i gynrychiolwyr grwpiau a mudiadau lleol, ynghyd ag unigolion sy'n dangos diddordeb, i ddod at ei gilydd i drafod mater neu broblem benodol, megis yr amgylchfyd. Sefydlwyd y fforymau yn eang drwy gydol y DU gan awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd i drafod datblygiad a gweithrediad strategaethau amrywiol. Cydnabyddir fforymau fel mecanwaith addas i gynnwys grwpiau a eithriwyd o'r broses gwneud penderfyniadau, megis lleiafrifoedd ethnig, cleifion a phobl ifainc.

Y ford gron / adeiladu consensws

Mae'r ford gron yn ffordd o adeiladu consensws rhwng partïon a oedd ar un adeg efallai yn wrthweithiol. Fel arfer gyda 16 i 24 aelod, canolbwyntir ar gynaladwyedd: mae amgylchfydwyr a diwydianwyr, gweithwyr awdurdodau lleol ac aelodau'r cyhoedd wedi cwrdd ar sail gyfartal i adeiladu consensws drwy waredu dull anwrthwynebus a cheisio deall barnau pobl eraill.

Rheithgorau dinasyddion

Mae'r rhain yn cynnwys rhwng 12 a 25 aelod, yn cynrychioli trawsdoriad o'r gymuned, sy'n cwrdd am 4 diwrnod (fel

arfer), ac sy'n derbyn cymaint o wybodaeth â phosib am fater, clywed tystiolaeth, croesholi tystion, trafod y mater ymysg ei gilydd a gyda thystion, a hwyluso gan safonwyr. Cyhoeddir eu casgliadau mewn Adroddiad, sy'n gosod allan yr anghytundebau yn ogystal â'r cytundebau.

Planning for Real®

Mae hwn yn dechneg sy'n defnyddio model 3D i alluogi pobl i roi syniadau gerbron ar gyfer gwella'u cymunedau. Mae cardiau yn cynrychioli'r defnyddwyr, y problemau neu faterion eraill ar y model. Mae consensws yn ymddangos drwy batrwm a dosbarthiad y cardiau. Mae hwn yn nod masnach gofrestredig.

Datganiadau Cynllun Pentref

Cynhyrchir y rhain gan gymunedau i adnabod cymeriad lleol a gosod allan cyfarwyddiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd. Y Comisiwn Cefn Gwlad a ddyfeisiodd y broses sy'n gorffen gyda Datganiad Cynllun Pentref er mwyn dylanwadu gweithredu'r system cynllunio statudol. Mae pobl leol yn adnabod arwahaniaeth eu hardal mewn Datganiad. Pwrpas y cyfan yw ei gymryd fel Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol fel y gellir ymgymryd yn deimladwy â datblygiadau a newidiadau'r dyfodol.

Mapiau'r Plwyf

Dyfeisiwyd y cynllun yma gan 'Common Ground': y bwriad yw dathlu arwahaniaeth lleol a helpu pobl i ddod at ei gilydd i nodi beth sy'n werthfawr iddynt. Mae'r Map yn arddangos cymuned leol y bobl a beth sy'n werthfawr ynddi - bywyd gwyllt, hanes, gwaith, tirnodau, adeiladau, pobl a gwyliau.

Nid oes rhaid iddo fod yn fanwl gywir, ond trwy ddarlunio gweithgareddau a nodweddion lleol, gall eich helpu i roi sylw i bethau dyddiol sy'n gwneud eich cymuned chi yn arwyddocaol ac yn wahanol i gymuned arall. Gall gynnwys yr ymatebion gwibiog hynny na ellir eu mesur neu eu cyfri a hefyd yr anweledig - y storïau, tafodiaith, enwau a darnau hanes pawb.

Participation Cymru

Ers ei ddechrau ym mis Tachwedd 2001, mae hwn yn brosiect cenedlaethol sy'n edrych yn fanwl ar gymryd rhan gymunedol. Fe'i ffurfiwyd i gwrdd â gofynion y bobl sy'n gweithio ym meysydd cyhoeddus a chymunedol yng Nghymru.

Mae hwn yn brosiect unigryw yng Nghymru, sy'n darparu hyfforddiant, cefnogaeth, gwybodaeth a chyfeiriad polisi newydd yn y dulliau cyfrannol cyhoeddus a chymunedol, datblygiad ac ailgenhedliad.

Gwybodaeth bellach

Participation Cymru
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk

Community Development Cymru
www.cdc.cymru.org

Interact Networks
www.interactnetworks.co.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Y Mwnt, 18 Heol y Frenhines, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JT
Elusen Gofrestredig *1062144*

Ffôn: 01267 245555 info@cavs.org.uk
Ffacs: 01267 245550 www.cavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:04/12/2009

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk